

NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

Y SULIAU NESAF

Ionawr 18:

Huw M. Roberts
Llywydd: Iwan Rowlands
Taflen a Sgrin: Geraint Rees

Ionawr 25:

Oedfa Deuluol Santes Dwynwen
Llywydd: Heulyn Rees
Taflen a Sgrin: Heulyn Rees

Chwefror 1:

Aelodau Ton-teg a Phentre'r Eglwys
Taflen: Gareth Humphreys
Sgrin: Carwyn Lloyd-Jones

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Glenys a Roy Davies, Meisgyn, yn eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw mam Roy ychydig ddyddiau'n ôl. Rydym yn meddwl amdanynt ac yn eu cynnwys yn ein gweddiau.

RHESTR FLODAU

Mae rhestr 2015 ar gael yn y cyntedd. Croeso i chi ddewis Sul.

TAFOD Y TAB

Rydym angen erthyglau / newyddion / lluniau / cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf. Anfonwch **erbyn Ionawr 18fed** at elainaprys@btinternet.com rhys@rhysevans.demon.co.uk

DILLAD PLANT

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu haelioni wrth ymateb i'r apêl am ddillad plant. Cafodd 13 o fagiau duon yn llawn amrywiaeth dda o ddillad i bob oed eu danfon i'r Gwasnaethau Cymdeithasol yn ystod yr wythnos. Maen nhw'n wirioneddol ddiolchgar i bob un ohonoch. Ond mae angen rhagor, felly mae croeso i chi adael dillad addas, mewn bagiau duon, yn llofft y capel, a gofynnir i bawb sôn wrth ffrindiau a theulu rhag ofn y medr rhagor o bobl helpu gyda'r ymgyrch bwysig hon.

MERCHED Y TABERNAACL

Cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd
Ionawr 20fed am 1:00 o'r gloch,
yn Neuadd Dewi Sant
Cyngerdd awr ginio:
trïawd - fiolín, cello, piano
Cwrdd yno tua 12:00 i orffen
ein rhaglen dros ginio

BANC BWYD PONTYCLUN

Cofiwch am y blwch yn nhu blaen y capel i dderbyn nwyddau ar gyfer y Banc Bwyd.



Byddwch yn hael - Mae mwy o angen nag erioed yn yr ardal hon.

ELUSENNAU 2015

Bydd arian yr amlenni brown yn mynd at: Ymchwil Canser Cymru (20%), Childline (20%), Gofalwyr Ifanc (20%) Cymdeithas Alzheimer (20%). Cedwir 20% yn ôl ar gyfer achosion a allai godi yn ystod y flwyddyn, ac ni hawlir cymorth rhodd ar y gyfran hon.

Os na chawsoch gyfle i arwyddo'r DDWY ddeiseb "Cristnogion yn erbyn Poenydio" y Sul diwethaf, a wnewch chi hynny y Sul hwn? Diolch yn fawr.

APÊL NADOLIG CYMORTH CRISTNOGOL

Bydd casgliad tuag at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol ar y ffordd allan o'r oedfa heddiw. Mae'r arian yn mynd tuag at ariannu prosiectau iechyd mam a phlentyn yn Kenya. Bydd Llywodraeth Prydain yn cyfrannu £1 am bob £1 a gesglir gan yr apêl. Bydd rhai o rieni'r Ysgol Sul yn casglu yn y Ganolfan ac yn y neuadd hefyd. Mae'r cyfanswm a gasglwyd rhwng y gwahanol weithgareddau tua £500 ar y funud. Diolch am eich haelioni!

ADFERIAD BUAN

Dymunwn yn dda i Glenys Roberts wedi iddi dreulio cyfnod byr yn yr ysbyty yn ddiweddar. Brysiau wella!

PWYLLGOR Y GANOLFAN

Rydym yn chwilio am unigolion a fyddai'n fodlon bod yn aelodau o'r pwyllgor sy'n gofalu am logi'r Ganolfan a hyrwyddo'r defnydd ohoni. Mynnwch air gyda Gwilym Huws, Ysgrifennydd y Bwrdd, cyn gynted â bo modd.

gehpengwern@yahoo.co.uk

CYFARFOD PWYSIG HEDDIW

Cofiwch am y cyfarfod am 4:00p.m. HEDDIW i drafod priodasau un rhyw. Os oes rhywun heb gopi o'r ddogfen drafod, holwch Emlyn Davies 02920891344 neu e-bostio emlyn.davies@which.net



CYLCH CADWGAN

Nos Fawrth Ionawr 27^{ain}

LYNN DAVIES

'Llên Gwerin y Glowr'

8.00 p.m. Clwb Rygbi Pentyrch



Cofiwch am y ddolen glywed ar gyfer pobl sy'n drwm eu clyw.

